ATODLEN 1

GORCHMYNION ETC. SY'N YMWNEUD Â GOFALU AM BLANT

Penderfyniadau mewn perthynas ag addasrwydd P i ddarparu gofal

24. Gwaharddiad a osodir ar unrhyw adeg o dan—

(a) adran 69 o Ddeddf 1989, adran 10 o Ddeddf Plant Maeth 1980(**1**) neu adran 4 o Ddeddf Plant 1958 (pŵer i wahardd maethu preifat)(**2**),

(b) erthygl 110 o Orchymyn Plant (Gogledd Iwerddon) 1995 (pŵer i wahardd maethu preifat),

(c) adran 10 o Ddeddf Plant Maeth (Yr Alban) 1984 (pŵer i wahardd cadw plant maeth)(**3**), neu

(d) adran 59 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2001 (Deddf Tynwald) (pŵer i wahardd neu osod gwaharddiadau o dan faethu preifat).

(**1**) 1980 p. 6. Diddymwyd adran 10 gan adran 108 o Ddeddf 1989 ac Atodlen 15 iddi.

(**2**) 1958 p. 65. Diddymwyd Deddf Plant 1958, gydag arbedion, gan adran 23 o Ddeddf Plant Maeth 1980 ac Atodlen 3 iddi ac adran 22 o Ddeddf Plant Maeth (Yr Alban) 1984 (p. 56) ac Atodlen 3 iddi. Mae Deddf Plant Maeth (Yr Alban) 1984 yn cael effaith yn ddarostyngedig i ddarpariaethau trosiannol a nodir yn y Ddeddf honno.

(**3**) 1984 p. 56.